

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

### ADRODDIAD BLYNYDDOL AELOD

Adroddiad yw hwn gan y Cynghorydd isod ynglŷn â'i brif weithgarwch yn ystod y flwyddyn drefol a ddaeth i ben ddiwedd Mawrth 2018. Caiff ei ddarparu er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall.

*Cyfarwyddiadau ar gyfer llenwi*

*Mae croeso i'r Cynghorwyr roi cymaint neu cyn lleied o wybodaeth ag y maent yn ei ddymuno o dan bob adran, fodd bynnag rhaid cadw'r adroddiad i fformat 2 dudalen (fel uchafswm).*

**Y Cynghorydd: Derek Wright**

**Plaid: Llafur**

**Ward: Cefn**

#### **Adran 1: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau**

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan CBSW):

Trwyddedu Amgylcheddol

Trwyddedu

Cynllunio

Gwasanaethau Democrataidd

Pwyllgor Lles, Diogelu a Chymunedau – rwy'n Gadeirydd ar y Pwyllgor hwn

Cyngor Llawn

Rwy'n aelod o'r Pwyllgorau allanol canlynol (ffigyrau presenoldeb wedi'u darparu gan y Cynghorydd):

**Dim**

#### **Adran 2: Gweithgaredd yn fy Etholaeth**

Rwy'n arwain y cais am i'r Bwrdd Gweithredol ailedrych ar ei benderfyniad i godi ar bob defnyddiwr am barcio yn y Parciau Gwledig, gan gynnwys pobl anabl - roedd hyn yn cynnwys codi am barcio ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr.

### **Adran 3: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yr wyf erbyn hyn wedi cadeirio dau gyfarfod o'r SW&CSC gyda BIPBC gyda'r pwyllgor yn cwestiynu'r Bwrdd lechyd ar eu perfformiad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

### **Adran 4: Dysgu a Datblygu:**

Rwyf wedi mynychu cymaint â phosibl o'r digwyddiadau cyflwyno hynny yr oeddwn yn teimlo eu bod yn berthnasol i'r pwyllgorau yr wyf yn aelod ohonynt.

### **Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwyf wedi bod yn Gyngorydd Cymuned ers 10 mlynedd ac eleni cefais fy ail ethol yn Is Gadeirydd.

Yn ystod y cyfnod hwn cychwynnais y mentrau canlynol:

Awgrymais ein bod ni yng Nghymuned Cefn yn edrych ar y ffordd orau o gofio canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf ac fel rhan o hyn ymchwiliodd disgyblion yr ysgolion lleol i 128 o bobl o'n pentref ni a fu farw yn y rhyfel hwnnw. Rwy'n teimlo y bu hyn yn brofiad rhagorol i'r ysgolion, gwirfoddolwyr a chynghorwyr. (Diolch yn arbennig i Phil Vaughan am ei ymdrechion gyda'r prosiect hwn).

Unwaith eto cymerodd y pedair ysgol leol ran yn ein twrnamaint pêl-droed, a enillwyd gan Rhosymedre.

Cychwynnais y gwaith o sefydlu Pwyllgor Ariannu yr ydym yn gobeithio fydd yn rhoi mynediad i ni at y grantiau gwir angenrheidiol sydd bellach ar gael i wella ein hardal.

Mae Cyngor Cymuned Cefn newydd gal grant o £66000 er mwyn cyflwyno terfyn cyflymder 20 mya ymhob rhan o'n cymuned bron ac rwy'n annog pawb i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar hyn.

**Llofnod y Cyngorydd Derek Wright**

**Dyddiad : 11 Gorffennaf 2018**